Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Cynllun Ad-daliad

# Cais am ad-daliad llawn neu rannol o ffioedd llys - Dogfen ganllaw

## Pam yr ydym yn ad-dalu rhai ffioedd?

Rydym wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn codi ffioedd. Daeth i’r amlwg:

- **Eich bod wedi talu gormod:** hynny yw, rydym wedi codi mwy na chost y gwasanaeth,
- **Eich bod wedi talu’r ffi anghywir:** hynny yw, rydym wedi codi'r ffi anghywir neu ni ddylem fod wedi codi tâl arnoch o gwbl.

## Pa ffioedd yr ydym yn eu had-dalu?

Nodir rhestr o'r **ffioedd lle codwyd gormod** yn y tabl ar dudalennau 4 – 8. Dim ond os ydych wedi talu un neu fwy o'r ffioedd a restrwyd rhwng y dyddiadau a nodir yn y tabl isod y gallwch hawlio ad-daliad. Mae'r swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar pryd y gwnaethoch dalu'r ffi llys. Mae'r tabl yn nodi union swm yr ad-daliad sy'n ddyledus i chi yn seiliedig ar y flwyddyn y gwnaed y taliad.

Nodir rhestr o'r **ffioedd lle codwyd y ffi anghywir** arnoch yn y tabl ar dudalen 8. Dim ond os yw eich achos yn cyd-fynd â'r amgylchiadau a ddisgrifir yn y tabl hwnnw y gallwch hawlio ad-daliad.

## A allaf hawlio ad-daliad?

Ni allwch hawlio ad-daliad ond os:

- gwnaethoch dalu'r ffi yn syth i'r llys
- gwnaeth rhywun hawliad yn eich erbyn ac y gorchmynnwyd i chi dalu ei ffioedd


©Hawlfraint y Goron 2020

## A allaf hawlio ad-daliad pe bawn i, neu fy nghleient, wedi gwneud cais o dan y cynllun Help i Dalu Ffioedd?

Weithiau, gelwir Help i Dalu Ffioedd yn 'Dileu Ffi'.

Os gwnaethoch chi ddefnyddio Help i Dalu Ffioedd, dim ond y swm a dalwyd y gallwch ei hawlio.

Er enghraifft: Ffi i'w thalu £10

Help i Dalu Ffioedd £6

gwnaethoch chi dalu £4

Gallwch hawlio hyd at £4 yn dibynnu ar yr ad-daliad sy'n ddyledus

Ni allwch hawlio **ad-daliad** os cafodd y ffi ei dileu'n llwyr ac nid oedd rhaid i chi dalu'r ffi o gwbl.

## A fydda i'n cael llog ar fy ad-daliad?

Bydd llog ar unrhyw ad-daliadau yn cael ei dalu ar gyfradd unffurf o 0.5%. Byddwn yn cyfrifo'r llog ar eich cyfer ac yn ei ychwanegu at eich ad-daliad.

## Sut ydw i'n gwneud cais am ad-daliad?

Mae'n rhaid i chi wneud cais am ad-daliad gan ddefnyddio'r ffurflen a elwir yn 'Cais am ad-daliad llawn neu rannol o ffioedd llys'. Rhaid defnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno pob cais, neu'r templed ar gyfer hawliadau swmp.

Os na allwch ddod o hyd i'r ffurflen gais, cysylltwch â'r ddesg gymorth ar 0300 3035174. Gallwch ofyn i gopi o'r ffurflen gais a'r ddogfen ganllaw gael eu hanfon atoch drwy'r post.

Efallai na fydd gofyn i chi lenwi'r ffurflen i gyd. Darllenwch bob adran yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i chi. Os caiff rhai o'r meysydd gofynnol eu gadael yn wag, gallai achosi oedi ac efallai y bydd rhaid i chi anfon ffurflen newydd.

Os ydych yn gwneud cais ar ran ystad rhywun, cofiwch gynnwys eich manylion yn adran 1.1 a 1.2 a manylion yr ymadawedig yn adran 1.4

Os gwnaethoch dalu mwy nag un ffi o fewn un hawliad: rhestrwch yr holl ffioedd y gallwch hawlio ad-daliad amdanynt yn adran 2.7.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS os gwelwch yn dda.


Gellir anfon ceisiadau drwy'r post neu e-bost. Ewch i dudalen 11 y ffurflen gais i gael manylion ar sut i anfon eich cais.

## A allaf hawlio ad-daliad ar gyfer nifer o achosion gwahanol ar yr un pryd?

Gallwch ddefnyddio'r templed ar gyfer hawliadau swmp i wneud cais am ad-daliad ar gyfer hyd at 25 o achosion. Sicrhewch eich bod yn cwblhau pob un o'r meysydd gofynnol ar y templed ar gyfer hawliadau swmp.

**SYLWCH:** Rhaid i maint yr e-bost, gan gynnwys unrhyw atodiadau, fod yn llai na 10mb.

Mae'r ffeithlun hwn yn dangos y camau y mae'n rhaid eu dilyn i gyflwyno'ch cais:




## Faint o amser fydd hi'n gymryd i brosesu fy nghais?

Byddwn yn ceisio prosesu eich cais o fewn 20 diwrnod gwaith o'r diwrnod y bydd eich ffurflen yn ein cyrraedd. Byddwn yn cysylltu â chi os oes rhywbeth o'i le ar eich cais neu os byddwn angen rhagor o wybodaeth gennych.

## Pan fyddwch yn cael taliad

Byddwch yn cael eich taliad trwy BACS, fel siec neu bydd yn cael ei dalu i'r Cyfrif Ffioedd/cyfrif PBA o'ch dewis chi, yn ôl yr wybodaeth rydych wedi'i darparu ar eich ffurflen gais.

Bydd yr hysbysiad talu yn cael ei anfon gan gyfeiriad e-bost 'do not reply' oddi wrth ein darparwr, Liberata. Bydd testun yr e-bost yn ymddangos fel: 'auto.reporting@liberata.com'. Gwnewch yn siŵr eich bod yn arbed y cyfeiriad e-bost hwn fel 'safe sender' i wneud yn siŵr y bydd yr e-bost yn eich cyrraedd. Os nad ydych wedi cael e-bost, rydym yn awgrymu eich bod yn gwirio eich ffolder junk.

Bydd yr e-bost yn cynnwys atodiad; dogfen PDF gyda phennawd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM).

# Gallwch wneud cais am ad-daliadau am y ffioedd canlynol:

## Ffioedd lle y bu ichi dalu gormod

Mae'r tabl hwn yn dangos y rhestr o ffioedd lle'r ydych wedi talu gormod ac uchafswm swm yr ad-daliad y gallwch ei hawlio (heb gynnwys llog). Bydd yr union swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar a gawsoch unrhyw gymorth gyda'ch ffioedd - dileu ffi. Mewn rhai achosion, mae'r tabl yn nodi na fydd ad-daliad yn ddyledus ar gyfer blwyddyn benodol. Y rheswm am hyn yw nad oedd cost y gwasanaeth yn fwy na'r ffi yn y flwyddyn honno, felly nid oes ad-daliad yn ddyledus

| | | | Dyddiad y talwyd y ffi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 22 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015 | 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016 | 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 | 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 | 1 Ebrill 2018 hyd at 25 Gorffenaf 2018 |
| **Cod y ffi a gamddyf ynnwyd** | **Cod y ffi gywir** | **Disgrifiad o'r ffi** | **Uchafswm yr ad-daliad** | | | | |

**Ffioedd Llysoedd Ynadon**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FEE0364 | FEE0357 | Ar gais sy'n ei gwneud yn ofynnol i ynad heddwch gyflawni swyddogaeth i ffwrdd o fangre'r llys | £29 | £20 | | £23 | £24 |
| FEE0363 | FEE0536 | Cais i ddatgan achos ar gyfer barn yr Uchel Lys o dan adran 111(1) Deddf Llysoedd Ynadon 1980 | £380 | £357 | £360 | £380 | £378 |
| FEE0361 | FEE0535 | Cychwyn apêl o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 | £354 | £341 | £342 | £350 | £350 |

| | | | Dyddiad y talwyd y ffi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 22 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015 | 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016 | 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 | 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 | 1 Ebrill 2018 hyd at 25 Gorffenaf 2018 |
| **Cod y ffi a gamddyfynnwyd** | **Cod y ffi gywir** | **Disgrifiad o’r ffi** | **Uchafswm yr ad-daliad** | | | | |
| **Ffioedd Llysoedd Ynadon** | | | | | | | |
| FEE0360 | FEE0534 | Wrth gychwyn apêl (ac eithrio o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 neu orchymyn didynnu o enillion o dan Ddeddf Cymorth i Blant 1991) | £149 | £136 | £137 | £145 | £145 |
| FEE0357 | FEE0533 | Cais am gopi ardystiedig o femorandwm euogfarn | £43 | £34 | | £37 | £39 |
| FEE0356 | FEE0532 | Cais am dystysgrif neu ddogfen ardystiedig | £44 | £35 | | £38 | £38 |
| FEE0343 | FEE0530 | Cais am warant carcharu a wnaed mewn achos cyfreithiol o dan Ddeddf Cynnal Plant 1991 | £209 | £197 | £198 | £203 | £204 |
| **Ffioedd Achosion Ansolfedd** | | | | | | | |
| FEE0471 | FEE0538 | Cais drwy gydsyniad neu heb rybudd o fewn achosion ansolfedd | £23 | £28 | £25 | £25 | £16 |
| FEE0472 | FEE0539 | Cais gyda hysbysiad o fewn achos ansolfedd | £46 | £70 | £59 | £63 | £57 |

| | | | Dyddiad y talwyd y ffi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 22 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015 | 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016 | 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 | 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 | 1 Ebrill 2018 hyd at 25 Gorffenaf 2018 |
| **Cod y ffi a gamddyfynnwyd** | **Cod y ffi gywir** | **Disgrifiad o'r ffi** | **Uchafswm yr ad-daliad** | | | | |

**Ffioedd**
**Achosion Sifil**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FEE0300 | FEE0528 | Apwyntiad a ffi gwrandawiad dyddiol barnwr y Llys Masnachol a benodir yn gymrodeddwr o dan adran 93 Deddf Cyflafareddu 1996 | £97 | £518 | £180 | £1,963 | £180 |
| FEE0301 | FEE0529 | Penodi a ffi gwrandawiad dyddiol barnwr y Llys Technoleg ac Adeiladu a benodwyd yn ganolwr o dan adran 93 Deddf Cyflafareddu | Dim ad-daliad | £555 | £656 | Dim ad-daliad | £655 |

| Cod y ffi a gamddyfynnwyd | Cod y ffi gywir | Disgrifiad o’r ffi | Dyddiad y talwyd y ffi: 22 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015 | 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016 | 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 | 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 | 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Marwth 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Uchafswm yr ad-daliad | | | | |
| **Civil Proceedings Fees** | | | | | | | |
| FEE0487 | FEE0541 | Ffeilio cais am asesiad manwl o gostau a gafwyd yn y Llys Gwarchod lle nad yw'r swm a asesir yn fwy na £3,000 (bil costau ffurf fer) | £39 | £41 | £42 | £28 | £31 |
| FEE0488 | FEE0541 | Ffeilio cais am asesiad manwl o gostau a gafwyd yn y Llys Gwarchod ym mhob achos arall | £149 | £151 | £152 | £138 | £141 |

| Cod y ffi a gamddyfynnwyd | Cod y ffi gywir | Disgrifiad o’r ffi | Dyddiad y talwyd y ffi: 22 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015 | 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016 | 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 | 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 | 1 Ebrill 2018 Hyd at 25 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Uchafswm yr ad-daliad | | | | |
| **Court of Protection Fees** | | | | | | | |
| FEE0253 | FEE0525 | Cais | Dim ad-daliad | £22 | £14 | £35 | Dim ad-daliad |
| FEE0524 | FEE0239 | Apêl | Dim ad-daliad | £2 | £82 | £169 | £56 |
| n/a | FEE0302 | Clyw | Dim ad-daliad | | | £11 | Dim ad-daliad |

# Ffioedd lle y bu ichi dalu gormod

Gallwch wneud cais am ad-daliad os gwnaethoch dalu un o'r ffioedd isod cyn 30 Medi 2021.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r ffioedd lle mae’r llys wedi codi gormod arnoch lle gallwch wneud cais am ad-daliad ac mae’n cynnwys:

- yr amgylchiadau lle gallwch wneud cais am ad-daliad
- uchafswm yr ad-daliad sy'n ddyledus o bosibl (heb gynnwys llog)

Bydd yr union swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar a gawsoch unrhyw help i dalu eich ffioedd - dileu ffi.

| Cod y ffi a gamddyfynnwyd | Cod y ffi gywir | Amgylchiadau | Uchafswm yr ad-daliad |
|---|---|---|---|
| **Ffioedd Llysoedd Ynadon** | | | |
| FEE0533 | FEE0422 | Rydych wedi talu ffi o £60 am gopi ardystiedig o femorandwm euogfarn. Dylech fod wedi talu ffi o £10 os mai dim ond copi swyddfa (h.y. cyffredin, heb ei ardystio) y bu ichi ofyn amdano.<br><br>Codwyd y ffi gywir o £60 (ac ni fydd hawl gennych i gael ad-daliad) os gofynnoch am gopi ardystiedig o femorandwm euogfarnu. | £50 |
| **Ffioedd Achosion Sifil** | | | |
| FEE0450 | FEE0465 | Rydych wedi talu ffi o £308 am gais i'r llys am adfer cwmni i'r gofrestr (o dan adran 1029 Deddf Cwmnïau 2006). Dylech fod wedi talu ffi o £280. | £28 |
| FEE0414 a FEE0415 | FEE0474 | Rhwng **1 Awst 2016 a 23 Chwefror 2020,** bu ichi archebu **copi electronig** o ddogfen dros 10 tudalen o hyd o CE-file (h.y. pdf). Gwnaethoch dalu ffi o £10 a 50c ar gam am bob tudalen ar ôl y deg cyntaf (y ffi am gopïau caled o’r dogfennau).<br><br>Dylech fod wedi talu ffi o £10 waeth beth fo hyd y ddogfen (y ffi am gopïau electronig o’r dogfennau).<br><br>Ni roddir ad-daliad os gwnaethoch archebu copi caled o ddogfen drwy ffeil CE. | Y gwahaniaeth rhwng y swm a dalwyd gennych a £10. |
| **Ffurflenni’r Llys Gwarchod** | | | |
| FEECODE Amherthnasol | Dim | Rydych wedi talu ffi gwrandawiad o £500 am wrandawiad nad oedd yn gwaredu'r achos neu'r apêl yn llawn.<br><br>Er enghraifft, gwrandawiad i ystyried cais dros dro pan na wnaed gorchymyn terfynol, datganiad neu benderfyniad mewn perthynas â'r achos neu'r apêl. Ni ddylech fod wedi talu unrhyw ffi. | £500 |